

Tu Hwnt i Ailgylchu

Gweithredu economi gylchol yng Nghymru

Roedd oddeutu 1,000 o ddinasyddion a rhanddeiliaid yng Nghymru yn rhan o'r ymgynghoriad.

Dyma gipolwg o rai o'r prif bwyntiau a godwyd ganddynt – mae crynodeb manwl ar gael.



Prif Thema - Penawdau

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar chwech o themâu craidd.

Ychwaengu at ein cofnod ailgylchu

- Mae dull cyson o ailgylchu yn bwysig.
- Mae'n rhaid i'r ailgylchu fod yn hawdd ac yn hygyrch i safleoedd domestig ac anomestig.
- Mae angen i'r buddsoddiad mewn seilwaith gefnogi'r amcanion hirdymor megis ail-ddefnyddio, trwsio ac ailweithgynhyrchu.
- Mae angen cynyddu gwerth deunydd eildro a chael mwy o hyder yn y farchnad deunyddiau eildro.



Buddsoddi mewn seilwaith

- Er mwyn gweld Cymru gwastraff sero a charbon isel, mae angen canolfannau rhanbarthol a chymunedol i ddelio gyda deunyddiau sy'n flaenoriaeth.
- Mae angen cludiant sy'n defnyddio andodau'n effeithlon er mwyn rheoli gwastraff, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig.
- Dylid cael cynrychiolaeth gan bobl ifanc, ysgolion a rhanddeiliaid yr economi gylchol a'u cael yn rhan o'r gwaith.



Sbarduno arloesi a'r defnydd o ddeunyddiau

- Mae angen ysgogi arloesi i ddatblygu atebion priodol ar gyfer yr economi gylchol, a chreu economi gref
- Dylid cymryd cyfleoedd i gwtogi y gadwyn gyflenwi i wella cadernid busnesau
- Dylid canolbwyntio ar hyrwyddo'r deunyddiau mwyaf priodol at y diben, wedi'i benderfynu drwy asesiad



Cefnogi atal ac ail-ddefnyddio

- Er mwyn atal ac ail-ddefnyddio, mae angen i bolisiau yn y dyfodol greu newid economaidd a diwylliannol. Mae addysg yn allweddol.
- Mae gweithio gyda cymunedau a mentrau cymdeithasol yn hanfodol i gefnogi twf y sectorau ail-ddefnyddio a thrwsio.
- Dylai pob sector – preifat, gwrfoddol a chyhoeddus gyflwyno offer dros ben i eraill
- Mae angen delio gyda bwyd sy'n cael ei wastraffu a chydabod bod bwyd dros ben yn adnodd.



Galluogi cymunedau a busnesau

- Mae angen annog a cefnogi cymunedau i weithredu ar y cyd.
- Mae angen cefnogi busnesau i arloesi, addasu ac arddangos eu camau tuag at economi gylchol.
- Mae'r egwyddor o Drefi Sero Wastraff yn cael ei groesawu ond mae angen manylion i gael effaith ystyrion.



Defnyddio ysgogiadau y llywodraeth

- Mae gwella caffael sy'n defnyddio adnoddau yn effeithlon o fewn y sector cyhoeddus yn gam cyntaf positif tuag at economi mwy cylchol.
- Fel cynhyrchydd gwastraff mawr, mae'n hanfodol i ganolbwyntio ar y sector adeiladu.
- Mae Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn hollbwysig i hyrwyddo newidiadau mwy cyfrifol ar lefel cynllunio, a bydd angen cynllunio'n ofalus er mwyn cyflwyno y Cynllun Dychwelyd Ernes mewn cyd-destun gwlad sydd eisoes yn ailgylchu llawer.



Tu Hwnt i Ailgylchu

Gweithredu economi gylchol yng Nghymru

Roedd oddeutu 1,000 o ddinasyddion a rhanddeiliaid yng Nghymru yn rhan o'r ymgynghoriad. Roedd nifer o grwpiau penodol hefyd trwy ddigwyddiadau pwrpasol. Dyma grynodedb o'r hyn a ddywedwyd.



Cysylltiad â Rhanddeiliaid wedi'i Dargedu

Dyma grynodedb o'r prif bwyntiau a godwyd drwy gysylltiad wedi'i dargedu gyda grwpiau penodol fel rhan o'r ymgynghoriad.

Awdurdodau Lleol

- Dylai targedau ailgylchu fod yn realistig a bod modd eu cyrraedd.
- Dylid cefnogi ail-ddefnyddio a thrwsio deunyddiau.
- Dylid ystyried effaith polisiâu ar awdurdodau lleol megis y Cynllun Dychwelyd Eernes.




Pobl Ifanc

- Canolbwyntio ar eitemau untro yn gyffredinol yn hytrach na dim ond plastig untro.
- Mae angen inni weithredu ar sbwriel am sawl rheswm gan gynnwys ar gyfer bywyd gwyllt a thwristiaeth.
- Cyfleuster yw y prif ysgogiad i nifer o bobl, felly dylid cael cymhelliad dros wneud y peth iawn.



Y Sector Gwastraff

- Mae casglu deunyddiau ar wahân yn cael ei gefnogi.
- Mae angen marchnadoedd cryf a sefydlog ar gyfer deunydd eildro i roi hyder a sicrwydd i'r diwydiant.
- Mae rheoleiddio a gorfodi yn bwysig ond mae angen eglurder a chysondeb a chystadleuaeth deg.



Busnes

- Gwelodd nifer o fusnesau gyfle i arbed a gwneud arian drwy ymddygiad mwy cylchol.
- Mae angen cefnogaeth a chanllawiau ar helpu busnesau i leihau gwastraff a manteisio ar gyfleoedd newydd.
- Dylem gymryd camau i gysylltu yr adnoddau a'r deunyddiau a gasglwyd ac a gynhyrchwyd yng Nghymru gyda'r busnesau sydd eu hangen.



Cymunedau a Grwpiau Amgylcheddol

- Dylid canolbwyntio ar leihau y defnydd a'r angen i gael gwaredu o blasting di-angen.
- Dylid cymryd camau i leihau gwastraff yn enwedig gan fusnesau.
- Byddai cymunedau yn elwa o gefnogaeth i ddatblygu mentrau cynaliadwy i wella'r amgylchedd leol.



Academia

- Dylai'r strategaeth fod yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Dylid cael llwybr clir sy'n pennu'r camau fydd yn cael eu cymryd i gyrraedd dyfodol di-wastraff erbyn 2050.
- Mae rôl bwysig i brifysgolion ystyried yr effaith â gânt drwy'r adnoddau y maent yn eu defnyddio ac ymddygiad staff a myfyrwyr.



Partneriaid cyflenwi eraill

- Mae'r modd y caiff y cynnydd tuag at ddyfodol sero wastraff ac amcanion eraill eu monitro, gan gynnwys cadw golwg ar unrhyw gamau gorfodi sy'n cael eu cymryd, yn allweddol.
- Dylai pob rhan o'r Llywodraeth ymuno o ddifrif i symud i economi mwy cylchol yng Nghymru.
- Dylai caffael fod yn ddull hollbwysig o leihau gwastraff, gan wella canlyniadau amgylcheddol a chefnogi economi Cymru.



Cysylltu y tu hwnt i Gymru

- Mae Cymru yn arwain ym maes cynaliadwyedd. Dylid defnyddio hyn fel sylfaen i gefnogi arloesi a phrofi ffyrdd newydd o weithio.
- Mae cyfle i gwtogi cadwyni cyflenwi i gynnig cadernid economaidd gwell a chadw manteision economaidd yn lleol ac yn rhanbarthol.
- Dylid bod yn ymwybodol o sefyllfa deunyddiau ledled y byd ac asesu sut yr ydym yn manteisio ar y cyfleoedd o'n blaenau.

